

Hysbysiad Preifatrwydd – Prydau Ysgol am Ddim

1. Pam rydym yn casglu ac yn defnyddio eich gwybodaeth bersonol?

Rydym yn casglu ac yn defnyddio eich gwybodaeth bersonol fel y gallwn asesu a phenderfynu ar eich cais am brydau ysgol am ddim. Rydych yn rhoi'r data personol i ni oherwydd bod gofyniad statudol arnoch i wneud hynny yn unol â'r Ddeddf isod.

Caiff eich data ei Brosesu, oherwydd ei fod yn angenrheidiol cyflawni'r dasg gyhoeddus hon yn unol â Deddf Addysg 2005.

2. Sut y defnyddir y wybodaeth amdanoch chi

Bydd y wybodaeth y byddwch yn ei darparu yn cael ei phrosesu yn unol â Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol 2016 a Deddf Diogelu Data 2018 a Deddf Addysg 2005.

Mae dyletswydd arnom i ddiogelu'r arian cyhoeddus a gaiff ei weinyddu gennym ac efallai y byddwn yn defnyddio'r wybodaeth a roddir gennych er mwyn canfod ac atal twyll. I'n cynorthwyo yn hyn o beth, bydd gwybodaeth a roddir gennych mewn perthynas â'ch cais am brydau ysgol am ddim yn cael ei chroeswiro'n fewnol ag Addysg, Tai, Y Dreth Gyngor a Budd-daliadau Tai/Gostyngiadau'r Dreth Gyngor, Arlwyo ac ysgol eich plentyn.

Yng ngoleuni'r newidiadau diweddar i benderfynu ynghylch prydau ysgol am ddim a thaliadau o ganlyniad i argyfwng y Coronafeirws, byddwn hefyd yn rhannu gwybodaeth yn allanol gyda Cifas er mwyn canfod ac atal twyll. Gwelwch y linc isod i Cifas, sy'n esbonio sut y bydd eich data personol yn cael ei ddefnyddio i groeswiro a dilysu ceisiadau;

<https://www.cifas.org.uk/fpn/covid19>

Byddwn hefyd yn gwneud unrhyw ddatgeliadau sy'n ofynnol yn ôl y gyfraith ac efallai y byddwn yn rhannu'r wybodaeth hon â chyrrff eraill sy'n gyfrifol am ganfod/atal twyll/troseddau neu archwilio/gweinyddu arian cyhoeddus i sicrhau bod arian yn cael ei dargedu a'i wario yn y ffordd fwyaf priodol a chost effeithiol. Er mwyn cyflawni hyn, bydd gwybodaeth yn cael ei rhannu â'n Gwasanaeth Archwilio o fewn Cyngor Sir Penfro a chydag Archwilydd Cyffredinol Cymru.

Ni fyddwn yn gwneud unrhyw ddatgeliadau i drydydd partïon i ddibenion marchnata.

Bydd eich data yn ddiogel ac yn gyfrinachol bob amser ac ni fyddwn yn casglu ond y wybodaeth bersonol y mae arnom ei hangen i roi ein gwasanaeth i chi.

Y categorïau o ddata personol sy'n cael eu casglu yw:

- Enw a Dyddiad Geni'r rhiant/gwarcheidwad/person â chyfrifoldeb rhiant
- Cyfeiriad y rhiant/gwarcheidwad/person â chyfrifoldeb rhiant
- Rhif Yswiriant Gwladol y rhiant/gwarcheidwad/person â chyfrifoldeb rhiant
- Cyfeiriad e-bost y rhiant/gwarcheidwad/person gyda chyfrifoldeb rhiant
- Manylion cyfrif banc y rhiant/gwarcheidwad/person â chyfrifoldeb rhiant
- Enw a Dyddiad Geni'r plentyn
- Manylion tystiolaeth o fudd-daliadau lles a delir (y rhai sy'n cwrdd â'r meini prawf cymhwyster ar gyfer Prydau Ysgol am Ddim).

3. Pa mor hir y byddwn yn cadw eich gwybodaeth?

Byddwn yn cadw'r wybodaeth a roddir inni am 15 mlynedd a chaiff eich gwybodaeth ei difa'n ddiogel pan na fydd ei hangen mwyach. Am fanylion ynghylch trefniadau cadw Cifas, gwelwch y ddolen isod:

<https://www.cifas.org.uk/fpn/covid19>

4. Mynediad at fy ngwybodaeth bersonol?

Gellwch ddarganfod a ydym yn dal unrhyw wybodaeth bersonol drwy wneud cais gwrthrych am fynediad o dan Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol 2016 a Deddf Diogelu Data 2018. I wneud cais am unrhyw wybodaeth bersonol a all fod yn ein meddiant, mae angen i chi gysylltu â:

Tîm Mynediad at Gofnodion
Cyngor Sir Penfro
Neuadd y Sir
Hwlfordd
SA61 1TP
accesstorecords@pembrokeshire.gov.uk
01437 775798

5. Eich Hawliau.

O dan y Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol 2016 a Deddf Diogelu Data 2018, mae gennych hawliau fel unigolyn y gellwch eu harfer mewn perthynas â'r wybodaeth sydd gennym amdanoch; ni fydd pob hawl yn berthnasol, bydd yn dibynnu ar y sail gyfreithiol dros brosesu eich data.

- Yr hawl i gael eich **Hysbysu** – Mae gan unigolion yr hawl i gael eu hysbysu am gasglu a defnyddio eu data personol. Mae hwn yn ofyniad tryloywder allweddol o dan y GDPR.
- Hawl **Mynediad** – Mae gennych hawl i ofyn am gael gweld a derbyn copi o'r wybodaeth sydd gennym amdanoch.
- Yr hawl i **Gywiro** – mae gennych yr hawl i ofyn am gael cywiro eich gwybodaeth.
- Gall yr hawl i **Gyfyngu** ar brosesu fod yn berthnasol - gellwch ofyn inni roi'r gorau i brosesu eich data personol. Fodd bynnag, gall hyn oedi neu ein hatal rhag darparu gwasanaeth i chi. Byddwn yn ceisio cydymffurfio â'ch cais ond efallai y bydd angen inni ddal neu brosesu gwybodaeth er mwyn cydymffurfio â'n dyletswyddau cyfreithiol.
- Yr hawl i **Wrthwynebu** – nid yw hwn yn hawl absoliwt a bydd yn dibynnu ar y rheswm dros brosesu eich gwybodaeth bersonol.
- Yr hawl i **beidio â bod yn destun gwneud penderfyniadau a phroffilio awtomataidd.**

6. Cwynion neu Ymholiadau.

Mae Cyngor Sir Penfro yn ceisio cyrraedd y safonau uchaf wrth gasglu a defnyddio gwybodaeth bersonol. Am y rheswm hwn, rydym yn cymryd unrhyw gwynion a dderbyniwn ynglŷn â hyn o ddifrif. Rydym yn annog pobl i ddod â mater i'n sylw os ydynt yn credu bod y modd yr ydym yn casglu neu'n defnyddio gwybodaeth yn annheg, yn gamarweiniol neu'n amhriodol.

Nid yw'r hysbysiad preifatrwydd hwn yn rhoi manylion hollgynhwysol am bob agwedd ar y ffordd yr ydym yn casglu a defnyddio gwybodaeth bersonol. Fodd bynnag, rydym yn hapus i roi unrhyw wybodaeth neu esboniad ychwanegol sydd ei angen. Dylid anfon unrhyw geisiadau am hyn i'r cyfeiriad isod:

Jo Hendy, Swyddog Diogelu Data
Cyngor Sir Penfro
Neuadd y Sir
Hwlfordd
SA61 1TP

E-bost: dataprotection@pembrokeshire.gov.uk

Rhif ffôn: 01437 764551

Os oes arnoch eisiau cwyno ynghylch y ffordd yr ydym wedi prosesu eich gwybodaeth bersonol, gellwch gysylltu â Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth fel y corff statudol sy'n goruchwyllo cyfraith diogelu data:

Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
SK9 5AF

E-bost: wales@ico.org.uk

Rhif ffôn: 0303 123 1113

7. Newidiadau i'r hysbysiad preifatrwydd hwn.

Rydym yn adolygu ein hysbysiad preifatrwydd yn rheolaidd.